Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Democracy and Boundary Commission Cymru

# Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol

2024/25

cdffc.llyw.cymru

ymholiadau@cdffc.llyw.cymru

**Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru**

**Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024/25**

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu Adroddiad Blynyddol y Comisiwn ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024/25. Canolbwyntiwyd yn ystod y flwyddyn ar gryfhau ein dull o gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar draws ein gwaith arolygu ffiniau ac unrhyw bolisïau newydd neu ddiwygiedig sy'n gysylltiedig â'n swyddogaethau. Rydym hefyd wedi buddsoddi mewn datblygu gallu staff trwy hyfforddiant fel bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu hymgorffori'n gyson mewn cynllunio, gwneud penderfyniadau a chyflawni. Mae'r adroddiad yn gorffen trwy edrych ymlaen tuag at 2025/26, gan gynnwys cynlluniau i ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol nesaf y Comisiwn a chynnal gweithgarwch ymgysylltu i lywio'r cynllun hwnnw.

# 1. Cyflwyniad a diben

Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (y Comisiwn) yn gyfrifol am gynnal arolygon ffiniau a gwneud argymhellion sy'n cefnogi democratiaeth leol effeithiol yng Nghymru. A ninnau'n gorff cyhoeddus, rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, meithrin perthnasoedd da a sicrhau bod ein gwaith yn hygyrch ac yn deg i bawb yng Nghymru.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn crynhoi'r gwaith a wnaed yn 2024/25 i gefnogi ein dyletswyddau cydraddoldeb ehangach. Mae'n amlygu sut yr ystyriwyd cydraddoldeb trwy Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer gwaith arolygu ffiniau ac ar gyfer datblygu polisïau newydd neu ddiwygiedig sy'n gysylltiedig â'n swyddogaethau statudol. Mae hefyd yn ymdrin â hyfforddiant staff a chynyddu ymwybyddiaeth, ac mae'n amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer 2025/26.

# 2. Dyletswyddau cydraddoldeb a'n hymagwedd

Mae'r Comisiwn yn cefnogi nodau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Yng Nghymru, ategir hyn gan ddyletswyddau cydraddoldeb penodol sy'n mynnu bod cyrff cyhoeddus yn cynllunio, cyhoeddi ac adrodd ar amcanion cydraddoldeb, ymgysylltiad ac effaith.

Rydym yn defnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn offeryn craidd i amlygu a mynd i'r afael ag effeithiau posibl ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, ac ar grwpiau a allai wynebu rhwystrau rhag cyfranogi. Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ein helpu i: brofi tybiaethau; defnyddio tystiolaeth ac ymgysylltiad yn briodol; ystyried mesurau lliniaru ac addasiadau rhesymol; a chofnodi sut mae ystyriaethau cydraddoldeb wedi dylanwadu ar benderfyniadau.

# 3. Llywodraethu, atebolrwydd ac adnoddau

Mae cydraddoldeb yn cael ei oruchwylio trwy drefniadau llywodraethu'r Comisiwn, ac mae uwch arweinwyr yn rhoi cyfarwyddyd a sicrwydd bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu hintegreiddio yn ein rhaglenni gwaith. Yn ystod 2024/25, parhawyd i ymgorffori Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn cynllunio a gwneud penderfyniadau ar gyfer arolygon ffiniau a datblygu polisïau, a ategwyd gan arweiniad mewnol a hyfforddiant staff.

- Rydym yn defnyddio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar ddechrau darnau sylweddol o waith (gan gynnwys rhaglenni arolygu ffiniau a newidiadau o bwys i bolisïau), ac yn ei ddiweddaru wrth i'r gwaith ddatblygu.
- Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cofnodi'r dystiolaeth a ystyriwyd (gan gynnwys adborth ymgynghori, lle bo'n berthnasol), effeithiau disgwyliedig, mesurau lliniaru a chamau gweithredu.
- Defnyddir Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd i lywio argymhellion ac fe'u cedwir yn rhan o'r trywydd archwilio ar gyfer gwneud penderfyniadau.

# 4. Gweithgarwch a chynnydd yn ystod 2024/25

## 4.1 Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer gwaith arolygu ffiniau

Yn ystod 2024/25, parhawyd i gymhwyso Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i'n gwaith arolygu ffiniau er mwyn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn derbyn sylw ochr yn ochr â meini prawf statudol a'r nod cyffredinol o sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Yn arbennig, ystyriwyd sut gallai ein prosesau a'n hallbynnau effeithio ar gyfranogiad mewn ymgynghoriadau, mynediad at wybodaeth, a gallu gwahanol gymunedau i ymgysylltu â chynigion. Adlewyrchwyd hyn yn ein rhaglen arolygu Ffiniau Seneddol.

- **Ymgysylltu hygyrch:** adolygu sut y cyflwynir deunyddiau ymgynghori (gan gynnwys eglurder mapiau a thestun esboniadol) ac ystyried fformatau amgen ar gais.
- **Y Gymraeg ac anghenion cyfathrebu:** sicrhau bod cyfathrebu'n gynhwysol ac yn cefnogi cyfranogiad ledled Cymru.
- **Cynhwysiant digidol:** ystyried y cydbwysedd rhwng sianeli ar-lein ac all-lein fel bod pobl a allai wynebu rhwystrau rhag mynediad digidol yn gallu cymryd rhan o hyd.

- **Rhwystrau sy'n wynebu grwpiau penodol:** ystyried yr effeithiau ar bobl hŷn, pobl anabl, pobl sydd â chyfrifoldebau gofalu, a phobl eraill a allai wynebu rhwystrau ychwanegol rhag ymgysylltu â phrosesau ymgynghori ffurfiol.

### 4.2 Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer polisïau newydd a diwygiedig

Ochr yn ochr â'n rhaglen arolygu ffiniau, parhawyd i gryfhau'r ffordd rydym yn cymhwyso Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i bolisïau newydd neu ddiwygiedig sy'n gysylltiedig â'n swyddogaethau. Pan fydd polisïau'n effeithio ar y ffordd rydym yn cyfathrebu, ymgynghori, trin gwybodaeth, neu ddarparu gwasanaethau i randdeiliaid, rydym yn asesu effeithiau ar gydraddoldeb yn gynnar ac yn eu hadolygu wrth i gynigion ddatblygu.

- Gwirio p'un a allai newidiadau i brosesau, graddfeydd amser neu ddulliau cyfathrebu roi unrhyw grwpiau dan anfantais.
- Defnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael (gan gynnwys adborth gan randdeiliaid a data cydraddoldeb, os yw ar gael) i lywio asesiadau.
- Ymgorffori mesurau lliniaru fel cyfeirio cliriach, iaith glir, fformatau hygyrch ac ymgysylltu penodol, lle y bo'n briodol.
- Cofnodi penderfyniadau a chamau gweithredu fel bod ystyriaethau cydraddoldeb yn dryloyw ac yn gallu cael eu hadolygu.

## 5. Hyfforddiant a datblygu gallu staff

Er mwyn sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn gyson ac o ansawdd uchel, mae hyfforddiant ar gydraddoldeb yn rhan hanfodol o raglen hyfforddiant flynyddol y Comisiwn. Mae hyn yn cynnwys:

- Sesiynau cyflwyniadol a gloywi ar ddyletswyddau cydraddoldeb
- Arweiniad ymarferol ar amlygu effeithiau posibl, dangos tystiolaeth o asesiadau a datblygu mesurau lliniaru cymesur.
- Cymorth i staff sy'n ymwneud ag ymgynghoriadau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, gyda phwyslais ar gyfathrebu cynhwysol a hygyrchedd.
- Gwell cyfeirio mewnol at dempledi, enghreifftiau a phwyntiau cyswllt ar gyfer cyngor.

## 6. Monitro, dysgu a gwella'n barhaus

Cydnabyddwn fod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn fwyaf effeithiol pan fyddant yn cael eu trin fel dogfen fyw sy'n llywio dewisiadau drwy gydol cylch prosiect neu

bolisi. Yn ystod 2024/25, parhawyd i wella'r ffordd rydym yn monitro Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, cyfleu'r hyn a ddysgwyd a chryfhau cysondeb.

- Adolygu Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb pan wneir penderfyniadau allweddol i sicrhau bod camau gweithredu a mesurau lliniaru yn cael eu rhoi ar waith a'u diweddaru.
- Defnyddio adborth o ymgynghoriadau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i amlygu rhwystrau a gwella dulliau yn y dyfodol.
- Cynnal pwyslais ar gyfathrebu clir, hygyrch fel thema sy'n ailadrodd ar draws effeithiau ar gydraddoldeb.
- Cyhoeddi Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ochr yn ochr â'n hadroddiadau arolygu ffiniau.

# 7. Blaenoriaethau a chynlluniau ar gyfer 2025/26

Yn ystod 2025/26, byddwn yn ychwanegu at y cynnydd a wnaed wrth ymgorffori Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a chryfhau gallu staff. Bydd blaenoriaethau allweddol yn cynnwys datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol nesaf y Comisiwn a chynnal gweithgarwch ymgysylltu i lywio'r cynllun, gan sicrhau ei fod yn adlewyrchu profiadau a blaenoriaethau pobl a chymunedau ledled Cymru.

- **Datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol:** diwygio ein hamcanion, camau gweithredu a mesurau cydraddoldeb, ac amlinellu sut byddwn yn monitro ac adrodd ar gynnydd.
- **Ymgysylltu i lywio'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol:** ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau i ddeall rhwystrau rhag cyfranogi a chyfleoedd i wella'r ffordd rydym yn gweithio.
- **Parhau i gyflawni Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb:** sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu cynnal a'u diweddaru ar gyfer gwaith arolygu ffiniau ac ar gyfer unrhyw bolisïau newydd neu ddiwygiedig sy'n gysylltiedig â'n swyddogaethau.
- **Cryfhau arweiniad a hyfforddiant:** cynnal rhaglen barhaus o ddysgu a diwygio arweiniad mewnol, gan gynnwys enghreifftiau ymarferol sy'n berthnasol i waith y Comisiwn.